# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (243)

### Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2007
### Amser: 2.00pm

### Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

### Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 10 yn ôl.

....................................

### 3.02pm
### Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

Derbyniwyd y Datganiad Busnes.

....................................

### 3.08pm
### Eitem 3 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru

**NDM3395 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cynhyrchwyr yng Nghymru, hyrwyddo bwyd lleol a lleihau milltiroedd bwyd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) Gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat i wella tryloywder drwy nodi tarddiad bwyd ar labeli bwyd;

b) Hyrwyddo gwladgarwch bwyd a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynnyrch Cymreig a phwysigrwydd lleihau milltiroedd bwyd; ac

c) Cyflwyno Blwyddyn Bwyd a Ffermio Cymru, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu cysylltiadau gyda ffermydd lleol i addysgu plant a gwella ymwybyddiaeth o sut y caiff bwyd ei gynhyrchu.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn croesawu bod y cynnig hwn yn debyg i gynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar ddatblygu strategaeth bwyd a basiwyd gan y Cynulliad ar 17 Hydref 2006."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 11 | 36 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn cefnogi ‘Cymru: Y Gwir Flas’ ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i godi ei broffil."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i fynd ar drywydd gosod rhwymedigaeth statudol ar bob archfarchnad i argraffu faint o fwyd lleol y mae pob cwsmer wedi'i brynu ar bob derbynneb. "*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar y Llywodraeth i bennu targed i gyfran sylweddol o'r bwyd sy'n cael ei gaffael yn gyhoeddus fod yn fwyd lleol."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn gresynu at fethiant Llywodraethau olynol y DU i roi sylw i effeithiau andwyol goruchafiaeth gynyddol archfarchnadoedd yn y diwydiant siopau bwyd ar gadwyni cyflenwi bwyd ac ar fusnesau bach."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 10 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn croesawu'r ymgyrch "Mae cost uchel i brisiau llaeth isel" sy'n tynnu sylw at yr anawsterau cynyddol sy'n wynebu cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM3395 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cynhyrchwyr yng Nghymru, hyrwyddo bwyd lleol a lleihau milltiroedd bwyd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) Gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat i wella tryloywder drwy nodi tarddiad bwyd ar labeli bwyd;

b) Hyrwyddo gwladgarwch bwyd a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynnyrch Cymreig a phwysigrwydd lleihau milltiroedd bwyd; ac

c) Cyflwyno Blwyddyn Bwyd a Ffermio Cymru, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu cysylltiadau gyda ffermydd lleol i addysgu plant a gwella ymwybyddiaeth o sut y caiff bwyd ei gynhyrchu.

3. Yn cefnogi 'Cymru: Y Gwir Flas' ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i godi ei broffil.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio**

**....................................**

## 3.56pm
## Eitem 4 - Dadl ar Bumed Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru

**NDM3393 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Adolygiad Blynyddol 05-06 Comisiynydd Plant Cymru; a

2. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adrodd ar hwn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol erbyn 31 Mawrth 2007.

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.24, gofynnodd mwy na 3 Aelod am i'r gloch gael ei chanu

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn rhannu'r pryder difrifol a fynegwyd gan y Comisiynydd Plant ei fod wedi gorfod ailedrych ar rai o'r materion allweddol a amlygwyd mewn blynyddoedd blaenorol sy'n parhau i beri pryder er gwaethaf argymhellion y Comisiynydd ac eraill."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 27 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn cydnabod bod cyflwr adeiladau ysgolion yn hanfodol i ansawdd bywyd ysgol plant a phobl ifanc yng Nghymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn cydnabod bod dosbarthiadau gyda llai o blant mewn ysgolion yn hanfodol er mwyn darparu bywyd ysgol mwy buddiol a chynhwysol i blant a phobl ifanc yng Nghymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

Gan fod nifer y pleidleisiau'n gyfartal, bwriodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais yn erbyn y gwelliant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn nodi, gyda gofid, y ddarpariaeth wael sy’n bodoli o hyd o ran gwasanaethau i blant ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gwell gwasanaethau yn y rhannau o Gymru sy'n cael trafferthion."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi strategaeth ar waith ar gyfer ymyrryd yn gynharach mewn achosion o esgeuluso plant."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn gresynu at y ffaith nad yw CAMHS yn cael digon o arian ac at fethiant parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi mynediad i bobl ifanc i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 26 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn gresynu at y diffyg gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru a methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu argymhellion adroddiadau diweddar."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i atgyfnerthu ei hymrwymiad i gyflawni'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth drwy ddarparu digon o gyllid, a chynnal adolygiad o unrhyw dargedau nas cyrhaeddwyd."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn cytuno â'r Comisiynydd Plant bod darpariaeth CAMHS mewn argyfwng ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu digon o gyllid ychwanegol i gyflwyno'r strategaeth a amlinellir yn Busnes Pawb."*

Gellir dod o hyd i gopi o Ddogfen Strategaeth Busnes Pawb ar y Rhyngrwyd drwy fynd i:

http://www.wales.nhs.uk/publications/men-health-w.pdf

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ymrwymo arian, a gosod targedau ar gyfer recriwtio nyrsys ysgol ledled Cymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn rhannu pryderon y Comisiynydd Plant ynghylch yr oedi cyn datblygu'r gweithdrefnau eiriolaeth, cwyno a chwythu'r chwiban a argymhellwyd dro ar ôl tro gan ei swyddfa."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 11.**

**Gwelliant 12 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu strategaeth yn arbennig ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd cyrhaeddiad addysgol isel ymysg plant sy'n derbyn gofal."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 12.**

**NDM3393 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Adolygiad Blynyddol 05-06 Comisiynydd Plant Cymru; a

2. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru’n adrodd ar hwn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol erbyn 31 Mawrth 2007.

3. Yn cydnabod bod cyflwr adeiladau ysgolion yn hanfodol i ansawdd bywyd ysgol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

4. Yn gresynu at y ffaith nad yw CAMHS yn cael digon o arian ac at fethiant parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi mynediad i bobl ifanc i’r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

5. Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i atgyfnerthu ei hymrwymiad i gyflawni’r safonau sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth drwy ddarparu digon o gyllid, a chynnal adolygiad o unrhyw dargedau nas cyrhaeddwyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**....................................**

## 5.09pm
## Eitem 5 - Dadl ar adolygiad polisi'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal : Adroddiad ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl

## 5.41pm
## Cynnig Trefniadaol

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21, rhoddodd y Trefnydd gynnig trefniadol gerbron i estyn y cyfarfod am hanner awr. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 3 | 30 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Eitem 5 - Dadl ar adolygiad polisi'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal : Adroddiad ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl (Parhad)

**NDM3394 Gwenda Thomas (Castell-nedd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 14.7:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc anabl, ‘Pam bod pobl ifanc anabl bob tro'n cael eu hystyried olaf?’, a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 0 | 40 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**....................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.48pm**

**....................................**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 17 Ionawr 2007

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

....................................

Penderfyniadau

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2007 penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6 nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:

- Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007
- Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir Heb Ei Drin Ac Ardaloedd Lled-Naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007
- Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 A Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007
- Rheoliadau Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) (Cymru) 2007
- Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007
- Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (Penodi) 2007
- Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid A Bwyd) (Cymru) 2007
- Rheoliadau Mangreoedd Etc. Di-Fwg (Cymru) 2007